**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Aeron Fach, Canolfan Felin-fach ar ddydd Llun 13 Ionawr 2014**

**Yn bresennol**: y Cynghorydd Hag Harris (Cadeirydd).

**Aelodau nad ydynt o ysgolion**: y Cynghorwyr Ellen ap Gwynn a Paul Hinge, Mr Eifion Evans.

**Aelodau o Ysgolion**:
Cynrychiolwyr Ysgolion Cynradd: Robert Jenkins (Pennaeth), Stephen Cooper, Lodwick Lloyd a Peter Wellington (Llywodraethwyr)

Cynrychiolwyr Ysgolion Uwchradd: Gwenallt Llwyd Ifan (Pennaeth), Chris Evans (Llywodraethwr).

**Swyddogion a oedd yn bresennol**: Chris Macey (DECS – Pennaeth Gwasanaethau Ariannol), Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

7.00 pm – 8.40 pm

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr Gwyn Jones, Steff Jenkins, Alwyn Ward a Ms Anna Williams am iddynt fethu â bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 **Datgelu Buddiant Personol**
Ni ddatgelwyd buddiant personol.

3 **Cofnodion Cyfarfod Blaenorol**
**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2013 yn rhai cywir .

4 **Materion yn codi o'r Cofnodion (25.06.13)**

(5) Trawsnewid y ffordd mae'r Cyngor yn gweithio a materion cyllidebol.
Nodwyd ers y cyfarfod diwethaf y cyhoeddwyd yr Adolygiad Gwariant gan Ganghellor y Trysorlys ac y mae swm yr arbedion sy'n ofynnol dros y tair blynedd nesaf wedi newid o'r £12.5m a adnoddwyd yn y cyfarfod diwethaf i £20m.
(7) Arian wrth gefn yr Ysgolion ym Mawrth 2013
Bydd y manylion diweddaraf ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a nodwyd ei fod yn annhebygol y bydd unrhyw ysgol wedi gorwario eu cyllideb.

5 **Perfformiad Ariannol Gwasanaethau Dysgu 2013-14**
Dosbarthwyd yn flaenorol adroddiad Rhagolygon y Gyllideb ar gyfer y Gwasanaethau Dysgu Medi 2013. Nodwyd y bydd yn gweithredu o fewn adnoddau cyllideb ei hun erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

6 **Cyllideb y Cyngor 2014-15**

Bu i Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau hysbysu'r cyfarfod o ddifrifoldeb y sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor am o leiaf y tair blynedd nesaf. Nodwyd yn dilyn trawsnewid yn y modd mae'r Cyngor yn gweithio yr edrychwyd tipyn mwy strategol ar glustnodi arbedion. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd er mwyn clustnodi arbedion ac arbed o leiaf £20m dros y tair blynedd nesaf a bydd hyn o'r herwydd yn cael effaith sylweddol ar gyllideb addysg. Gwnaed ymdrech fawr yn gorfforaethol ac fel tîm i greu cyllideb fantoledig o fewn y gostyngiad yn yr adnoddau a ddyrannwyd.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

7 **Datblygu Addysg - diweddaraf**

Bu i Gyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau hysbysu'r cyfarfod fod newidiadau'n anorfod er mwyn sicrhau llwyddiant addysg yng Ngheredigion i'r dyfodol. Bydd newid y gyfradd athro disgybl (PTR) i 17:1 yn sicrhau arbedion fodd bynnag bydd hyn yn anorfod yn arwain at ddiswyddiadau staff. Nodwyd ganddo hefyd fod gan nifer o ysgolion gronfeydd mawr o arian wrth gefn ac ni fyddai'r sefyllfa yma'n dderbyniol mwyach ac y dylai arian o gronfeydd wrth gefn sydd dros 5% gael eu had-dalu i'r Cyngor os nad oes cynlluniau gan ysgolion mewn lle ar gyfer gwario'r arian. Mae cynlluniau ar gyfer cau ysgolion cynradd yn parhau a bwriedir adolygu'r sector uwchradd hefyd er mwyn diogelu addysg uwchradd yn y chwe thref marchnad. Nodwyd y bydd yn rhaid gwneud newidiadau er mwyn cyflawni hyn am na all y sefyllfa gyfredol barhau. Hysbyswyd y cyfarfod nad oes mwy o arian ar gael bellach ar gyfer Ysgol Ardal Newydd a'i fod yn annhebygol y caiff ysgol ei hadeiladu yn Nyffryn Aeron yn y dyfodol agos.

8 **Cyllideb a ddirprwywyd i Ysgolion 2014-15**

Nodwyd y caiff llinell newydd ei hychwanegu at y gyllideb er mwyn cynnwys yr uned newydd yn Aberaeron.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

9 **Grant Addysg Ôl 16 oed 2014-15**

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau wrth y cyfarfod y bydd y fformiwla ariannu oddi wrth Lywodraeth Cymru yn newid o fis Ebrill ymlaen a bydd yn cael effaith anffafriol ar Geredigion. Yn y gorffennol defnyddiwyd ffigyrau PLASC fodd bynnag o fis Ebrill, defnyddir amcangyfrifon damcaniaethol o ran niferoedd plant ysgol 16+ oed am gyfnod o dair blynedd heb gydnabyddiaeth o'r Fagloriaeth Gymreig. Mae rheoliadau newydd yn nodi na fydd arian ar gyfer costau trafnidiaeth i gyrsiau newydd. Nodwyd y caiff

strategaethau tymor hir eu gosod gynted â phosib am nad yw'r sefyllfa gyfredol yn gynaliadwy.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, Ellen ap Gwynn ei bod hi ac Arweinydd Cyngor Sir Powys wedi cysylltu â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, parthed herio Llywodraeth Cymru ar y sefyllfa yma.

Awgrymwyd y dylai gohebiaeth i herio'r fformiwla ariannu gael ei hanfon oddi wrth bob Corff Llywodraethol.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

10 **Grant Effeithiolrwydd Ysgolion**

Dywedodd Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau wrth y cyfarfod fod materion wedi newid ers y cyfarfod blaenorol. Mae'r arian wedi gostwng 20% i'w gymharu â'r arian oedd ar gael y llynedd. Caiff arian ei ddyrannu'n rhanbarthol a Sir Benfro fydd yn ei weinyddu ar ran y rhanbarth gan ei rannu i'r ysgolion hynny sy'n ffinio ag ysgolion sydd â chanlyniadau perfformiad da neu ardderchog o fewn clystyrau ysgolion. Nodwyd y bydd llai o arian ar gael i ysgolion sy'n tangyflawni ac y defnyddir dulliau newydd i gynorthwyo'r ysgolion hynny gan ystyried y materion penodol sydd angen sylw a chynorthwyo pob ysgol yn hynny o beth.

Cynhelir Cynhadledd Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer Penaethiaid ar 27 Ionawr er mwyn darparu mwy o wybodaeth.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19 Mai 2014.

**Cadeirydd**